**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Mehefin 2025

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Mai ynglŷn â Chytundeb Partneriaeth 100 Mlynedd y DU-Wcráin (y Cytundeb).

Fel y nodais yn fy ymateb gwreiddiol, mae hwn yn gytundeb dan arweiniad Llywodraeth y DU, sy'n adlewyrchu'r berthynas agosach y mae'r DU wedi'i datblygu gydag Wcráin ers dechrau'r goresgyniad direswm ac anghyfreithlon gan Rwsia.

Mae Llywodraeth y DU yn dal i drafod y manylion gydag Wcráin am sut y bydd y Cytundeb yn cael ei weithredu a'i gyflawni. Mae fy swyddogion yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y Cytundeb. Cadarnhaodd y diweddariad diweddaraf ar 23 Mai nad yw'r Cytundeb hwn wedi symud i'r cyfnod cyflawni eto ac nid yw'n glir pryd y bydd hyn yn digwydd. Felly, nid yw rôl Llywodraeth Cymru o ran y ffordd yr ydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cytundeb hwn yn glir ar hyn o bryd ac ni fydd unrhyw adnodd yn cael ei ddyrannu nes bod y manylion wedi'u cwblhau rhwng y DU ac Wcráin.

Os yw sefydliadau neu bartneriaid cyflawni o Gymru eisiau bod yn rhan o brosiectau cydweithredu o dan y Cytundeb, gallant fynd drwy adran berthnasol Llywodraeth y DU, a gall swyddogion helpu gyda chyfeirio os oes angen. Gan fod hwn yn gytundeb dan arweiniad y DU, bydd Llywodraeth y DU yn cadw rôl gydlynu a goruchwylio. Mae lle i weithgarwch gan y llywodraethau datganoledig ond nid yw'r manylion am sut i gymryd rhan wedi'u cwblhau.

Yn wreiddiol, cysylltodd Llywodraeth y DU â thîm Cymunedau Llywodraeth Cymru i drafod o ran gwaith datblygu'r Cytundeb. Roedd hyn oherwydd y berthynas bresennol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar adsefydlu Wcreiniaid. Nodwyd bod gan y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach ddiddordeb hefyd ac wedi hynny cydlynodd y tîm hwn sylwadau Llywodraeth Cymru ar y drafft a oedd bron yn derfynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyd nes y bydd trafodaethau ynghylch gweithredu'r Cytundeb hwn wedi'u cwblhau gan Llywodraeth y DU a Llywodraeth Wcráin, nid yw'n bosibl darparu unrhyw fanylion pellach ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**